# Isafswm Presenoldeb Gofynnol Blackboard

Blackboard yw amgylchedd dysgu ar-lein Prifysgol Aberystwyth (PA). Mae gan bob modiwl AU ei safle cwrs ei hun ar Blackboard.  Mae'r Isafswm Presenoldeb Gofynnol yn rhoi cysondeb ac yn gwella defnyddioldeb Blackboard er mwyn i fyfyrwyr allu dod o hyd i'r cynnwys y mae arnynt ei angen. Dylai'r holl gynnwys a uwchlwythir ac a gynhyrchir ar Blackboard fod mor hygyrch â phosib. Gweler Cyfarwyddyd ar Greu Deunyddiau Dysgu Hygyrch PA i gael rhagor o wybodaeth.

Mae pob un o safleoedd cyrsiau PA Blackboard yn defnyddio templed y cytunwyd arno ac yn cynnwys lle ar gyfer gwybodaeth graidd. Cytunir ar y templed ar gyfer modiwlau bob blwyddyn.

## Ffolder Gwybodaeth Modiwl

Dylai ffolder gwybodaeth y modiwl gynnwys y canlynol:

- Amlinelliad o'r modiwl, nodau a deilliannau dysgu, gan gynnwys dolen i gronfa ddata'r modiwlau. Gellir darparu llawlyfr modiwl y gellir ei lawrlwytho ar wahân sy'n cynnwys y wybodaeth hon.
- Cyflwyniad wedi'i recordio i'r modiwl gan gynnwys sut i lywio drwy gynnwys Blackboard.
- Deunyddiau cyflwyno i helpu myfyrwyr i ymgyfarwyddo â gofynion y modiwl, wedi'u trefnu mewn un ffolder. Dylai hyn gynnwys gweithgareddau sy’n helpu’r myfyrwyr i ymgyfarwyddo â'r offer a'r dulliau a ddefnyddir yn y modiwl. Darparwch gyfarwyddiadau clir i fyfyrwyr ar sut i ymgymryd â'r modiwl a'r gweithgareddau dysgu.
- Gwybodaeth ynghylch pa pryd y bydd cynnwys ar gael i fyfyrwyr.
- Dolen i unrhyw wybodaeth iechyd a diogelwch berthnasol ar gyfer astudio'r modiwl, gan gynnwys asesiadau risg lle bo hynny'n berthnasol.
- Gwybodaeth am staff sy'n dysgu'r cwrs gan gynnwys proffiliau staff, manylion cyswllt ac argaeledd, sut i drefnu cyfarfod (yn bersonol neu ar-lein) a pha bryd y dylai myfyrwyr ddisgwyl cael ateb i ymholiad.
- Manylion am sut y gall myfyrwyr roi adborth ar y modiwl.
- Dolen i offeryn Cwrs Panopto

## Lleoliad trefnus ar gyfer Deunyddiau Dysgu

Dylid creu strwythur ffolder neu Fodiwl Dysgu ar gyfer Deunyddiau Dysgu. Er mwyn i staff gael bod yn gyfrifol am y ffordd y trefnir y cynnwys, nid ydym wedi pennu strwythur penodol. Dylai'r staff sicrhau:

- Bod y cynnwys wedi’i drefnu'n glir gyda ffolderi /Modiwlau Dysgu yn ôl wythnosau neu bynciau (mae canllawiau ar fodiwlau dysgu a ffolderi ar gael).
- Bod yr holl gynnwys, gan gynnwys ffolderi / Modiwlau Dysgu, yn cael eu henwi'n glir ac yn gyson.
- Bod yr holl ddeunyddiau dysgu perthnasol yn cael eu huwchlwytho i safle'r cwrs ar Blackboard – mae hyn yn cynnwys sleidiau PowerPoint, taflenni, nodiadau neu ddeunyddiau ategol eraill.

- Bod y gweithgareddau dysgu'n cael eu hychwanegu ochr yn ochr â'r deunyddiau ategol perthnasol (adnoddau dysgu).
- Cyfarwyddiadau clir i fyfyrwyr ar beth i'w wneud gyda phob adnodd.
- Rhaid i'r holl ddeunyddiau dysgu fod mor hygyrch â phosib. Os na ellir gwneud rhai eitemau yn gwbl hygyrch, eglurwch pam a beth all y myfyrwyr ei wneud er mwyn gofyn am opsiynau mwy hygyrch. Gweler y Cyfarwyddyd ar Greu Deunyddiau Dysgu Hygyrch i gael mwy o wybodaeth.
- Bod recordiadau Panopto wedi'u cynnwys ochr yn ochr â'r deunyddiau / gweithgareddau dysgu perthnasol. I gael arweiniad ar recordio darlithoedd byw, gweler **Polisi Cipio Darlithoedd PA**. I gael arweiniad ar ddarlithoedd a recordiwyd ymlaen llaw, gweler Sut i sicrhau bod recordiadau anghydamserol yn ennyn brwdfrydedd ac yn rhyngweithiol
- Pan fo'n briodol, defnyddiwch Ryddhau Ymaddasol i ryddhau cynnwys ar adegau penodol, i ddefnyddwyr penodol, neu yn seiliedig ar weithgareddau'r defnyddwyr.

### Ffolder Asesu ac Adborth

Dylai'r ffolder asesu ac adborth gynnwys:

- Gwybodaeth asesu gan gynnwys meini prawf marcio.
- Sut i gael adborth.
- Pwyntiau ar gyflwyno'r aseiniad gyda gwybodaeth lawn gan gynnwys y dyddiad a'r amser hwyraf y ceir cyflwyno'r aseiniad.
- Dolen i'r Rheoliad ar Ymddygiad Annerbyniol
- Dolen i Hen Bapurau Arholiad
- Argymhellir olrhain ystadegau ar friffiau aseiniadau, gan ei fod yn fodd i staff addysgu wybod a yw myfyrwyr wedi edrych ar friffiau'r aseiniadau ai peidio.
- Pwy y dylid cysylltu â hwy os yw myfyrwyr yn cael trafferth yn cyflwyno aseiniadau. Cyfeiriwch y myfyrwyr at yr Uned Gwella Dysgu ac Addysgu i gael cymorth technegol ( eddysgu@aber.ac.uk).

### Ffolder (gudd) Arholwyr Allanol

Dylai'r ffolder hon gynnwys:

- Eitemau yr hoffech i'r Arholwr Allanol eu gweld
- Aseiniadau wedi'u marcio a lawrlwythwyd ar gyfer eu safoni
- Tystiolaeth o brosesau safoni
- Ni ddylai'r ffolder hon fyth fod yn weladwy i fyfyrwyr

## Rhestr Ddarllen Aspire

Dylid ychwanegu'r rhestr ddarllen Aspire fel eitem ar wahân (yn hytrach nag mewn ffolder) a'i gosod ar y tab Cynnwys fel un o'r chwe eitem uchaf.

# Rhestr wirio Isafswm Presenoldeb Gofynnol Blackboard

| **Eitem i'w hystyried** | **Ticiwch ar ôl cwblhau** |
|---|---|
| **Mynediad** | |
| Mae gennych awdurdod hyfforddwr ar gyfer modiwl(au) rydych yn eu dysgu neu'n eu marcio | |
| **Gwybodaeth Modiwlau** | |
| Amlinelliad o'r modiwl, nodau a chanlyniadau dysgu. Gellir cynnwys y rhain mewn llawlyfr modiwl ar wahân. | |
| Cyflwyniad wedi'i recordio i'r modiwl | |
| Deunyddiau sefydlu ar gael | |
| Gwybodaeth ynghylch pa pryd y bydd cynnwys yn cael ei ryddhau i fyfyrwyr. | |
| Asesiadau risg, a gwybodaeth iechyd a diogelwch os yw'n berthnasol | |
| Manylion cyswllt ar gyfer staff sy'n dysgu'r modiwl | |
| Dolen i adnodd Panopto Recorded | |
| **Lleoliad trefnus ar gyfer Deunyddiau Dysgu** | |
| Cynnwys wedi'i drefnu'n glir yn y strwythur ffolder / Modiwl Dysgu. | |
| Dolenni i recordiadau Panopto ar gael | |
| Taflenni sleidiau PowerPoint, nodiadau neu ddeunyddiau ategol eraill | |
| Gweithgareddau dysgu wedi'u trefnu gydag adnoddau dysgu perthnasol a chyfarwyddiadau ar beth i'w wneud gyda'r adnoddau | |
| Pan fo'n briodol, defnyddio Rhyddhau Ymaddasol i ryddhau cynnwys ar adegau penodol, i ddefnyddwyr penodol, neu yn seiliedig ar weithgareddau'r defnyddwyr. | |
| **Asesu ac Adborth** | |
| Gwybodaeth asesu gan gynnwys meini prawf marcio. | |
| Gwybodaeth ar sut i gael adborth | |
| Pwyntiau cyflwyno aseiniadau gyda dyddiadau ac amseroedd cyflwyno'r aseiniad wedi'u nodi'n glir | |
| Gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw os ceir unrhyw anawsterau wrth gyflwyno | |

| Ffolder (gudd) Arholwyr Allanol | |
|---|---|
| Eitemau i'w safoni a'u hadolygu gan Arholwr Allanol | |
| Rhestr Ddarllen Aspire | |
| Dylid ychwanegu'r rhestr ddarllen Aspire fel eitem ar wahân (yn hytrach nag mewn ffolder) a'i gosod ar y tab Cynnwys fel un o'r chwe eitem uchaf. | |

| Pethau i'w gwirio | |
|---|---|
| Mae enwau'r ffeiliau yn ystyrlon | |
| Mae'r dolenni i ffeiliau a gwefannau yn gweithio | |
| Mae'r cynnwys yn cydymffurfio â ddeddfwriaeth hawlfraint | |
| Mae'r wybodaeth yn gyfredol (a deunyddiau sydd wedi dyddio wedi'u tynnu) | |
| Mae deunyddiau a dogfennau'r cwrs mewn fformatau hygyrch (gweler Cyfarwyddyd ar Greu Deunyddiau Dysgu Hygyrch i gael mwy o wybodaeth) | |

Mae mwy o wybodaeth a chefnogaeth ar gael:

- Cwestiynau a Holir yn Aml am Blackboard
- Canllawiau Blackboard
- Cysylltwch â'r Uned Gwella Dysgu ac Addysgu (eddysgu@aber.ac.uk)

*"Mae'r Polisi hwn yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Gwybodaeth. Fe'i adolygwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2023 gan Bwyllgor Gwella Academaidd a bydd yn cael ei adolygu eto ym mis Chwefror 2024. / This Policy is maintained by Information Services, was last reviewed by Academic Enhancement Committee in February 2023 and is due for review in February 2024."*